# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Llun, 11eg Rhagfyr, 2023 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| County Councillor Armand Watts (Chairman)<br><br>County Councillors: Jill Bond, Jan Butler, Steven Garratt, Penny Jones, Malcolm Lane, Dale Rooke, Frances Taylor | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Mark Hand, Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd<br>Nicholas Tulp, Active Travel Officer |

**APOLOGIES:** Ddim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd Frances Taylor fuddiant nad oedd yn rhagfarnu fel un o sylfaenwyr grŵp Magwyr Walkway.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim

3. **Craffu cyn penderfynu ar y Cynllun Trafnidiaeth Strategol**

   Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Catrin Maby yr adroddiad. Rhoddwyd y cyflwyniad gan Debra Hill-Howells ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Christian Schmidt, Mark Hand a Nicholas Tulp.

   **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:**

   - Mae'r ddarpariaeth bresennol mewn rhai ardaloedd yn annigonol. Ni allwn newid arferion pobl os nad oes gennym ddewisiadau eraill ar eu cyfer ee nid yw maes parcio Twnel Hafren yn hygyrch iawn
   - Nid yw'r rhwydwaith Teithio Llesol yng Nghil-y-coed wedi dychwelyd at Aelodau er mwyn trafod materion sy'n weddill, felly ni theimlir bod y cam gweithredu "wedi'i gwblhau"
   - A ellir pwysleisio effaith gadarnhaol prosiect y B4245 ar gylchfan High Beech i Lywodraeth Cymru?
   - Sut y gellir cynorthwyo'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael mynediad i'r ymgynghoriad?
   - Sut mae'r Asesiad Llesiant yn cael ei asesu?

- Gallai rhai o gwestiynau’r ymgynghoriad a’r opsiynau ymateb fod yn well o ran ymgysylltu â’r cyhoedd ac efallai nad cyfnod y Nadolig yw’r amser mwyaf priodol ar gyfer ymgynghoriad.
- Hoffai'r Aelodau gael mwy o eglurder ynghylch yr amserlenni mewn perthynas â camau gweithredu sy'n gysylltiedig â gorsaf rhodfa Magwyr a Gwndy.

- Mae Aelodau’n betrusgar ynghylch rhai o’r mesurau teithio llesol sy’n ymwneud â’r orsaf, er enghraifft, cyrbiau isel. (**CAM GWEITHREDU): - Swyddogion i ddarparu mwy o wybodaeth am ymyriadau.**
- Pryder na all y gwelliannau i fysiau i gylchfan High Beech ddigwydd heb lôn fysus bwrpasol. Pryderon ynghylch lonydd amrywiol ar ffyrdd cyswllt yn gyffredinol.
- Pryder pe byddai gorsaf fysiau Cas-gwent yn cael ei symud, efallai na fyddai’r National Express yn aros yng Nghas-gwent mwyach.
- Pryderon y bydd gwefru cerbydau trydan ar y stryd yn anos mewn trefi hŷn a phryder ynghylch a oes gennym ni’r seilwaith trydan i alluogi hyn i ddigwydd.
- Pryder ynghylch cymudwyr o Gas-gwent i Fryste drwy Gyffordd Twnnel Hafren. Terfynau 20mya yn arafu traffig cymudo rhwng Cas-gwent a Bryste.
- Dywedodd aelod nad oedd y grŵp lobïo Trawsnewid Cas-gwent wedi gwahodd cynghorwyr lleol i'w trafodaethau, felly mae'n bosibl y bydd pethau ychydig yn ddarniog.
- Pryderon cyffredinol ynghylch hygyrchedd platfformau bysiau a chyrbau isel: Enghraifft yw Goetre, a Llanofer, sydd ag un cwrb isel yn unig.
- Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am y llwybr arfaethedig trwy Benperllenni, gan nodi cyflogaeth yn y dyfodol ger y safle a mwy o wybodaeth am brosiect Goetre i Lanellen **(Cam Gweithredu): Swyddogion i ddarparu.**
- Cwestiynau am y gwasanaethau bws craidd, gan gynnwys y Rhif 60.
- Ymholiadau ynghylch Integreiddio bysiau cyhoeddus a chludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
- Byddai’r aelodau’n gwerthfawrogi gwybodaeth am orsaf New Inn/Pont-y-pŵl ac a fydd cyswllt bws i Frynbuga neu peidio **(Cam Gweithredu): Swyddogion i ddarparu. (Cam Gweithredu). Swyddogion i ddarparu.**
- Pryder nad yw Brynbuga yn cael ei hystyried yn dref allweddol yn y cynllun.
- Cerbydau danfon ar ffyrdd: dywedodd Aelod fod angen i drigolion newid i ddefnyddio siopau lleol a mannau codi.
- Trefynwy: pryder nad oes trenau, ac nad yw National Express yn stopio yno ac a ellid gwneud unrhyw gynnydd ar hyn.
- Teimlad nad oes anogaeth i bobl ddefnyddio bysiau, gan eu bod yn cymryd gormod o amser.
- Yr amcanion dros dro yn y cynllun: teimlad na ddylai diwylliant fod uwchlaw uchelgeisiau economaidd.
- Pryder bod problemau technegol cyson gyda threnau sy’n dod yn ôl o Gaerdydd neu Gasnewydd, gan gynnwys trenau nad ydynt yn stopio yng Nghas-gwent, ac mae hyn yn atal pobl rhag defnyddio’r gwasanaeth.

- Teimlad bod angen cydnabod ein bod yn rhan o economi Glannau Hafren a chwestiynwyd a ydym yn llwyr ddeall bod niferoedd enfawr o weithwyr yn teithio bob dydd i Loegr.
- Ymholiad ynghylch cyllid ar gyfer yr A466, gan nad oes gennym unrhyw awdurdodaeth.

Sylwadau clo yr Aelod Cabinet :

Mae angen symud i ffwrdd oddi wrth system a adeiladwyd dros ddegawdau ar adeg o anhawster economaidd enfawr ac mae'n gymhleth. Mae terfynau i bwerau o fewn Sir Fynwy, ac i ba raddau y gallwn ddylanwadu ar benderfyniadau yn hytrach na'u gwneud ein hunain. Nid yw'r her yn hawdd i'r cyhoedd ei deall ac mae'n ymddangos bod trafnidiaeth ym mhob cwr o'r wlad yn dameidiog iawn. Rhwystredigaeth fawr yw gweld arbenigedd a gallu yn ein tîm a bod yn ymwybodol o'r hyn y gallem ei gyflawni pe bai mynediad at gyllid. Mae angen inni barhau i weithio gyda Burns, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol dros y bont.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am fynychu a chymryd cwestiynau'r Aelodau. Penderfynodd y Cadeirydd y dylid rhoi'r adborth canlynol i'r Cabinet ar ran y Pwyllgor:

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus ar[11] Rhagfyr 2023 ar gyfer Craffu Cyn Penderfyniad. Mae'r pwyllgor wedi craffu'n fanwl ar yr adroddiad ac mae pwyntiau allweddol wedi'u nodi yng nghofnodion y cyfarfod, ond mae ein hadborth clo fel a ganlyn:

- Mae pryderon ynghylch y broses ymgynghori a chynnwys Cynghorwyr Cas-gwent mewn materion perthnasol yn ymwneud ag ardal Cas-gwent. Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith mai ychydig iawn o gyfeiriad sydd at y rhwydwaith trenau yn y cynllun ac awgrymwyd y byddai'n elwa o gael mwy o amlygrwydd.
- Mynegwyd pryderon ynghylch lefel y cyllid sydd ei angen i gyflawni dyheadau'r cynllun a phryder na fydd prosiectau llai o faint yn digwydd o ganlyniad.
- Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen am hygyrchedd mewn gorsafoedd trenau ond hefyd mewn arosfannau bysiau , oherwydd bod diffyg cwrbiau isel yn atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau bysiau, er ein bod yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cefnffyrdd.
- Roedd pryderon hefyd ynghylch y seilwaith gwefru Cerbydau Trydan.

**4. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar:**

Cymeradwywyd y cofnodion gyda chywiriad mewn perthynas â phenodi Is-Gadeirydd ar 19[eg] Mehefin 2023, y tynnwyd sylw ato gan y Cynghorydd Penny Jones (**CAM GWEITHREDU)**.

5. **Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae diweddariad ar Wasanaethau Deintyddol wedi'i anfon at yr aelodau a gall yr Aelodau gysylltu â'r swyddog yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau yn y dyfodol. Cyfeiriodd yr aelodau at rai pryderon nad ydynt wedi'u datrys o ran recriwtio deintyddion a gwasanaethau ar gyfer y rheiny sy'n gadael gofal.

Amlygodd y Rheolwr Craffu fod y Pwyllgor wedi cyflwyno'r holl eitemau a awgrymwyd gan yr Aelodau, ond bod rhai pynciau yn weddill ar restr y rhaglen waith efallai y byddai'r Pwyllgor ddymuno eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunwyd ar hyn.

Soniodd yr aelodau am fynediad at blismona yn y gymdogaeth fel pryder allweddol a gofynnwyd a ellid gwahodd yr arolygydd newydd i'r cyfarfod nesaf.

6. **Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd y cynllun.

7. **I nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 19eg Chwefror 2024**

The meeting ended at **12.19 pm**